

Polisi Gwisg Ysgol

Mae Llywodraethwyr, staff a disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle yn credu fod gwisg ysgol ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 i 11 ac ar gyfer disgyblion y 6ed dosbarth yn angenrheidiol ac yn gymorth i hyrwyddo awyrgylch waith da. Mae'r polisi yn cynnwys y gofynion ar gyfer Addysg Gorfforol a phynciau ymarferol eraill. Mae'r wisg ysgol yn addas, cyfforddus, fforddiadwy ac ymarferol ar gyfer awyrgylch ddysgu iach a diogel.

Mae'r Llywodraethwyr yn derbyn eu cyfrifoldeb o dan *Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975*, *Deddf Hawliau Dynol 1998* a *Deddf Anabledd a Gwahaniaethu 1995* ac yn gwerthfawrogi na ddylai gwisg ysgol wahaniaethu ar sail crefydd, rhyw na diwylliant.

Mae'r Polisi hwn yn cyd fynd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisiau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion (diwygiwyd Gorffennaf 2011).

1. Nodau

Drwy'r wisg ysgol yr ydym yn anelu at;

- Hyrwyddo balchder yn yr ysgol
- Cefnogi dysgu ac addysgu
- Canitau i ddisgyblion fod yn gyfforddus a diogel
- Hyrwyddo synnwyr o gydraddoldeb a pherthyn i gymuned yr ysgol
- Gwarchod disgyblion o bwysau cymdeithasol i wisgo mewn ffordd arbennig
- Cefnogi rhieni drwy gyflwyno gwisg sydd yn werth am arian
- Sicrhau fod disgyblion o gefndiroedd cymdeithasol, crefyddol neu ethnig gwahanol yn teimlo'n rhan o'r ysgol

2. Hyrwyddo'r Polisi

Dylai amlinelliad o'r polisi fod ar gael yn y Llawlyfr Rhieni ac ar wefan yr ysgol. Dylid tynnu sylw rhieni at y polisi yn ystod nosweithiau rheini ac yn enwedig nosweithiau ar gyfer rheini newydd.

3. Gorfodaeth

Mae disgwyl i'r Pennaeth sirhau fod y Polisi yn cael ei ddilyn. Gall ddirprwyo yr hawl hwn i aelodau'r uwch dim rheoli neu aelodau'r tim bugeiliol.

Gellir ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth rheoliad drwy ddilyn Polisi Clod ac Ymddygiad Cadarnhaol yr ysgol.

4. Manylion Gwisg Ysgol Swyddogol Disgyblion Blwyddyn 7 -11

Mae'n bwysig bod enw'r disgybl yn glir ar bob dilledyn.

4.1 Merched

- Crys polo gwyrdd swyddogol yr ysgol;
- Crys chwys glas tywyll swyddogol yr ysgol;
- Sgert ddu hyd at y pen-glin;
- Trowsus du – defnydd: polyester/viscose/gwlân – (dim jeans na leggings gwaelod tracwisg na dim arall.);
- Sanau gwyn neu ddu;
- Teits – du;
- Côt – blaen, dywyll;
- Esgidiau – du gyda sodlau isel (Ni chaniateir esgidiau o unrhyw liw arall).

4.2 Bechgyn

- Crys polo gwyrdd swyddogol yr ysgol; *
- Crys chwys glas tywyll swyddogol yr ysgol;
- Trowsus du neu charcoal – defnydd: polyester/viscose – (dim jeans na gwaelod tracwsg na dim arall.);
- Côt – blaen, dywyll;
- Esgidiau – du; (Ni chaniateir esgidiau o unrhyw liw arall).

4.3 Manylion Gwisg Ysgol Swyddogol Disgyblion y Chweched Dosbarth

4.4 Merched

- Blows wen
- Siwmpwr gwddf V / 'Fleece' gyda logo'r ysgol
- Tei'r ysgol
- Trowsus du
- Sgert ddu
- Sanau gwyn neu ddu
- Teits du
- Côt – blaen dywyll;
- Esgidiau – du gyda sodlau isel (Ni chaniateir esgidiau o unrhyw liw arall).

4.5 Bechgyn

- Crys gwyn
- Siwmpwr gwddf V / 'Fleece' gyda logo'r ysgol
- Tei'r ysgol
- Trowsus du
- Côt – blaen dywyll;
- Esgidiau – du. (Ni chaniateir esgidiau o unrhyw liw arall).

5. Tlysau

Nid oes caniatâd i'r disgyblion wisgo tlysau heblaw'r canlynol: oriawr, un pâr o studs plaen ar y clustiau, un fodrwy blaen ar fys.

6. Colur / Addurniadau yn y Gwallt

Nid oes caniatâd i wisgo colur nac addurniadau yn y gwallt. Mae lliw eithafol o golur a lliw gwallt yn annerbyniol.

Ni chaniateir steil gwallt eithafol.

Mae disgwyl i bob disgybl gyrraedd a gadael tir yr ysgol mewn gwisg ysgol.

7. Chwaraeon

7.1 Gwisg Chwaraeon y Bechgyn

- Crys pêl-droed,

- Siorts Du
- Sanau Pêl-droed Du
- Esgidiau pêl-droed sydd yn addas ar gyfer cae a chae pob tywydd e.e. esgidiau 'blades'.

7.2 Gwisg Chwaraeon y Genethod

- Mae pecyn chwaraeon yr ysgol ar gael i'w archebu drwy'r ysgol.

8. Diwrnodau Dillad Ei Hunain

Os nad oes disgwyl ar ddisgyblion i wisgo gwisg ysgol oherwydd digwyddiad i godi arian neu drip ysgol dylai gwisg y disgyblion fod yn un addas ar gyfer yr awyrgylch ddysgu neu'r gweithgaredd y maent yn ymwneud ag ef.